COFNODION Y CYNGOR: Busnes Agored - 11.00 a.m., Dydd Iau 26 Medi 2024
Cyfarfod hybrid a gynhaliwyd yn 7 Coopers Yard, Caerdydd ac amrywiol leoliadau eraill trwy gyfrwng meddalwedd Zoom

Materion Agored y Cyngor - cofnodion 1 i 13.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Presennol: John Graystone (yn Cadeirio), Stephen Nicholls, Tim Palazon, Jan Tiley, Chris Franks, Judith Evans, Victory Ezeofor, Siôn Aled Owen, Cathy Clark, Sam Emmett; Dona Lewis (tan gofnod 6 yn unig) a Jo Rees (cofnodion 1-3 yn unig).
Hefyd yn Bresennol: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Stephen Thomas (Clerc); Beth John a Rhydian Williams (cofnodion 1-3 yn unig); Iola Llwyd (cyfieithydd - gwasanaeth cyfieithu ar y pryd).
Ymddiheuriadau: Salamatu Fada, Nicole Kinnaird, Lisa O'Connor; Mark Baines (Pennaeth y Cwricwlwm a Pherfformiad).
Roedd cworwm trwy gydol y cyfarfod. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd ar y cychwyn.

2. Cyflwyniadau

Cynigiodd y Pwyllgor Chwilio fod Jo Rees o Wales TUC Cymru yn cael ei phenodi'n aelod o'r Cyngor, ar ôl llwyddo yn y cyfweliad ar gyfer y rôl yn gynt yn yr wythnos. **Cymeradwywyd y cynnig hwnnw'n unfrydol gan aelodau'r Cyngor**. Wrth iddi ymuno â'r cyfarfod, gwnaed cyfres o gyflwyniadau personol byr gan bawb a oedd yn bresennol.

3. Cyflwyniad ar brosiect llythrennedd *LifeLoveLoss* gan Beth John a Rhydian Williams

Dechreuodd Kathryn Robson trwy ddiolch i Beth John, Rhydian Williams a'u timau (yn enwedig Tamara Garnault) am waith eithriadol ar y prosiect hwn. Disgrifiodd Beth John fod y gwaith yn ddarn hanes llafar a chwedleua a ddeilliodd o gyfarfod hap a damwain yng nghynhadledd EAEA (Y Gymdeithas Ewropeaidd er Addysg Oedolion) 2023 yn Zagreb gydag athro o Brifysgol Coimbra Portiwgal, a ddaeth yn ganolog i ddatblygiad y gwaith yn sgil ymweliad ag Amgueddfa Tor-perthynas y ddinas. Felly, tyfodd o ymrwymiad i ryng-genedlaetholdeb a'r amrywiol gyrff ymbarél Ewropeaidd a rhyngwladol yr oedd AOC bellach yn aelod ohonynt, ac roedd yn brosiect gweithgar, prysur.

Roedd y wefan, a ddangoswyd ar https://lifeloveloss.digital/ - Learner Literacy Narratives: A Library of Life, Love and Loss - yn e-lyfr ar gyfer amrywiaeth o wledydd a chyrff Ewropeaidd, yn 'gymuned ymarfer' i ddysgwyr ac athrawon. Roedd yn storfa o waith dysgwyr a lwythwyd iddi, yn gronfa adnoddau i diwtoriaid ac yn ffynhonnell ddata i ymchwilwyr. Wrth ei lansio ar-lein ym mis Gorffennaf, roedd 18 o wledydd yn cyfrannu ar y pryd, rhai ohonynt o'r tu allan i Ewrop. Roedd yr holl ddeunydd ar y wefan oedd yn cael ei ddangos ar ffurf fideo wedi cael ei gynhyrchu'n fewnol, gan gynnwys y daith o gwmpas y model 3D o

atriwm ac oriel rithwir o gyfraniadau dysgwyr, wedi'u storio ar 'loriau' amrywiol: fe wnaeth y rhain gynnwys gwaith clywedol, gweledol ac ysgrifenedig. Roedd hwn yn y cyfnod llwytho o hyd, gyda sefydliadau gwledydd eraill heb gyfrannu eu cynnwys eto. Byddai cyfraniadau yn amlieithog, gyda chyfieithiadau i'r Saesneg yn cael eu darparu drwyddi draw. **Roedd Victory Ezeofor yn ymwneud â rhywbeth tebyg ym Mhrifysgol Bangor a byddai diddordeb ganddo gael adborth ar y defnydd o adnoddau'r prosiect a'u defnyddioldeb**.

4. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 5 Gorffennaf 2024

Cafodd cofnodion Busnes Agored cyfarfod rhithwir blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom, eu cymeradwyo fel cofnod cywir. O ran cynnwys cofnod 6 (cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau ar 21 Mehefin 2024), roedd materion pwysig wedi codi i'r Pwyllgor eu hystyried, gan olygu y byddai ei gynulliad ym mis Hydref yn digwydd - naill ai ar ffurf cyfarfod neu trwy ymgynghoriad ar e-bost.

5. Ethol Cadeirydd newydd Addysg Oedolion Cymru

Roedd Stephen Nicholls wedi cael ei enwebu'n ysgrifenedig ar gyfer y rôl hon erbyn y dyddiad cau gan ddau aelod o'r Cyngor: Salamatu Fada a Cathy Clark. (Roedd ef wedi gadael y cyfarfod dros gyfnod yr eitem hon ar yr agenda.) Siaradodd Cathy Clark am ei sgiliau cadeirio trawiadol a'i effeithiolrwydd wrth allu dwyn trafodaethau hirfaith i gasgliad â chytundeb. Yn ei barn hi, roedd hefyd yn gynrychiolydd da ar ran y Sefydliad mewn fforymau allanol. Siaradodd aelodau eraill i'w gefnogi, hefyd. Ni ddaeth unrhyw enwebiadau eraill i law ac, mewn pleidlais ar y mater, cafwyd **cefnogaeth unfrydol ar gyfer ymgeisyddiaeth Stephen Nicholls**. Pan ddychwelodd ef, diolchodd i bawb am eu cefnogaeth, gan ddweud y byddai **hefyd angen cytuno ar Gadeirydd newydd y Pwyllgor Adnoddau ac (o bosibl) Is-gadeirydd sefydliadol pellach**, pan fyddai'n amser cymryd yr awenau oddi wrth John Graystone.

6. Adroddiad y Prif Weithredwr, Medi 2024

Roedd fformat yr adroddiad yn fwriadol yn fwy cryno nag o'r blaen: amlygodd Kathryn Robson ddatblygiadau allweddol ohono. Yn wir, roedd amrywiol faterion i'w cyflwyno gerbron y Pwyllgor Adnoddau i'w cymeradwyo (gweler cofnod 4 uchod), gan gynnwys achos busnes ar gyfer swydd i gynorthwyo Pennaeth y Cwricwlwm a Pherfformiad, uwchraddio seiberddiogelwch, a chryfhau'r mentrau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y Sefydliad. Roedd y cynllun aelodaeth newydd gyda'i gymhellion yn cael ei lansio'r wythnos ganlynol, i staff yn y lle cyntaf ac wedyn i bawb arall yn fuan wedi hynny, gan ganiatáu am 'lansiad meddal' i ddatrys unrhyw broblemau cychwynnol posibl â'r cynllun. Byddai rhai newidiadau cyfansoddiadol cysylltiedig i AOC yn deillio o hyn a byddent yn dod gerbron y Cyngor cyn cael eu cyflwyno i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2025.

Yna, darparodd ddiweddariad ar gaffael eiddo yn Abertawe, lle'r oedd trydydd lleoliad posibl yn cael ei ystyried erbyn hyn. O ran Hyb Dysgu Port Talbot, roedd datblygiadau yn cynnwys dechrau'r broses o sefydlu cangen Gwaith Saer i Bawb fel Sefydliad Corfforedig Elusennol ar wahân. Ni fyddai newid yr endid cyfreithiol hwnnw yn ddiwedd ar rôl AOC yno, serch hynny, oherwydd disgwyliwyd grant cychwynnol ar gyfer ei flwyddyn gyntaf o weithredu annibynnol, gyda chefnogaeth ariannol o bosibl yn lleihau dros y blynyddoedd dilynol. Roedd Medr bellach wedi symud i'w eiddo newydd yn y Sgwâr Canolog yng Nghaerdydd ac, ar ôl dosbarthu cynllun strategol drafft, byddai ymatebion iddo gan y Sefydliad a rhai o ddysgwyr unigol AOC. Yn y cyfamser, roedd cysylltiadau â ColegauCymru wedi dod yn agosach oherwydd roedd yn ymddangos bod ColegauCymru yn rhoi mwy o bwyslais ar ddysgu oedolion. Oherwydd bod Kathryn Robson yn arwain grŵp gorchwyl a gorffen yno a thrwy ei sedd ar y Cyngor Partneriaeth Cymdeithasol, roedd hi eisoes wedi cael cyfarfod gyda'r Prif Weinidog newydd, Eluned Morgan.

Cymeradwyodd y Cyngor y dyfarniad cyflog o 5.5%, wedi'i ôl-ddyddio i 1 Awst 2024, a gymeradwywyd yn ddiweddar i athrawon ac, felly, trwy gydraddoldeb tâl i bawb a oedd yn gweithio yn y sector AB. O hwn, byddai'n rhaid i 0.2% (neu tua £12,000) ddod o gronfeydd wrth gefn AOC ei hun gan nad oedd Llywodraeth Cymru'n talu amdano.

7. Cofrestr Risgiau Medi 2024

Tynnodd Stephen Thomas sylw'r Cyngor at ddiweddaru risg 2.1.1 (hyfforddiant tiwtoriaid) i adlewyrchu datblygiadau'n gysylltiedig â chofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Cytunodd y Cyngor â'r cyfeiriad a wnaed, ond **gofynnodd fod graddau/sgorau risg gros a net yn cael eu hailystyried oherwydd y ffactor newydd hwn, oedd yn ansicr o hyd**. O ran darpariaeth y Gymraeg (2.1.2) fe wnaeth cais gan Hyrwyddwr y Sefydliad yn y maes hwnnw, a drosglwyddwyd drwy'r Staff Lywodraethwr, Sam Emmett, ofyn bod dehongli bod categori B3, sef lefelau bach o Gymraeg a siaredir mewn dosbarthiadau, yn fwy cyson i gynnwys darnau dwyieithog sylweddol ychwanegol: byddai newid o'r fath yn eithrio mwyafrif y tiwtoriaid presennol oherwydd eu hanallu ieithyddol. **Byddai angen ystyried y cynnig ymhellach, oherwydd byddai'n effeithio ar lefel y cyfraniad Cymraeg, a'i ansawdd**.

Nodwyd fod lefel risg risg 2.1.3 (dysgu ar-lein) wedi cael ei ostwng. O ran risgiau 3.1.1 (rheoli'r ystâd) a 4.1.1 (Strategaeth TG), teimlai'r Cyngor nad oedd y rheolaethau a'r prosesau presennol a ddisgrifiwyd yn rhoi darlun cyfoes, llawn o anghenion cynnal a chadw ac adnewyddu adeiladau, na diweddaru systemau TG. **Byddai rheolwyr yn ymgymryd â'r newidiadau disgrifiadol oedd eu hangen yn yr enghreifftiau hynny**. **O ran risg 6.1.3, cytunwyd y dylai'r diffiniad o ryfel Rwsia/Wcráin ddarllen fel a ganlyn: 'Y goresgyniad a arweiniodd at ryfel…'**; ac roedd risg 6.1.4, ar gydymffurfio â'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael, yn risg newydd a nodwyd yn briodol.

8. Datganiadau Ariannol – Cyfrifon Rheoli ar gyfer Awst 2024

Siaradodd Kathryn Robson am y sefyllfa ariannol gyffredinol dda a chronfeydd wrth gefn iach: cafodd y Cyngor sicrwydd yn fras o hyn, pan roedd cymaint o sylw'n cael ei roi i fesurau llymder mewn amrywiol feysydd. I ateb cwestiwn, esboniwyd fod cwricwlwm y PLA (Cyfrif Dysgu Personol) ar gyfer pobl mewn gwaith ar hyn o bryd, i'w ailhyfforddi er mwyn gwella'u rhagolygon o ran gwaith, a'i fod yn cael ei gyflwyno'n aml gan gyrff partner AOC - gydag arbenigedd mewn adeiladu neu beiriannau trwm, er enghraifft. Roedd hyfforddi gweithwyr dur Port Talbot a staff meithrin posibl y Mudiad Meithrin yn enghreifftiau o'r PLA ar waith.

Esboniodd Stephen Nicholls y gwahaniaeth rhwng y swm 'Prif ffrwd' o £7.47 miliwn a ddyfynnwyd fel Cyfanswm Dyraniad Cyllid Rheolaidd Llywodraeth Cymru i'r Sefydliad ar gyfer 2024/25; a'r £8.45 miliwn yn y Sefyllfa Ddisgwyliedig ar Ddiwedd y Flwyddyn (o fewn y tabl Incwm a Gwariant), a oedd yn adlewyrchu'r symiau 'Prif ffrwd' a'r symiau ychwanegol y disgwylid eu cael o gronfeydd eraill Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol.

9. Egwyddorion a Phrotocolau ar gyfer Llywodraethu ac Ymddygiad Proffesiynol Da

Disgrifiodd Stephen Thomas hanfod y ddogfen a ddosbarthwyd, oedd yn amlinellu egwyddorion craidd a disgwyliadau ar gyfer aelodau'r Cyngor yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys categorïau penodol o aelod. Fe'i cysylltwyd â diweddariad diweddar y Comisiwn Elusennau i'w saith egwyddor penderfynu ar gyfer ymddiriedolwyr elusennau, a ddosbarthwyd drwy'r e-bost ychydig wythnosau'n gynt.

Er bod aelodau'r Cyngor o'r farn fod y ddogfen yn gydbwysedd da rhwng byrdra a gormod o fanylion, **gofynnwyd i'r Clerc wirio cysondeb defnyddio'r geiriau 'must' a 'should' ynddi; ac i ystyried ychwanegu cyfeiriad at Lywodraeth Cymru yn adran 2, o dan 'Atebolrwydd' a 'Stiwardiaeth Ariannol'**.

10. Cofnodion Pwyllgor Profiad y Dysgwr a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2024

Datganodd Cathy Clark fod y Pwyllgor yn falch bod y rheolwyr rhanbarthol a chenedlaethol yn bresennol ar gyfer cofnod 3 i ddarparu disgrifiadau o faterion dysgu ac addysgu presennol, gan obeithio y byddai'r fformat hwnnw'n cael ei ailadrodd. Ni fu cynnydd yn y ffioedd dysgu sy'n cael eu codi ar gyfer 2024-25 (cofnod 7) ac yng nghyfnod 9 ar adborth dysgwyr, roedd angen cynyddu nifer y dysgwyr sy'n ateb y cwestiynau gwerthuso eu hunain ar-lein o hyd – gan gynnwys y dysgwyr a oedd yn ymgymryd â'n cyrsiau wyneb yn wyneb. Nododd hefyd (cofnod 10) na fu'n rhaid cynnull y panel apêl i ymdrin â chwyn: ar ôl bod yn rhan o apeliadau o'r fath, roedd hi'n fodlon bod y cwynion wedi cael eu trin yn foddhaol yn fewnol, heb droi at gyrff allanol nac ymyriadau pellach.

Codwyd cwestiwn am or-ddarparu oriau dysgu ar gyrsiau, wedi'u gwarantu trwy glustnodi rhywfaint o gronfeydd wrth gefn AOC. Roedd hynny'n gam cadarnhaol, ond a ellid gwarantu y byddai'r un peth ar gael yn 2025-26 neu mewn blynyddoedd dilynol? Gallai adfachu ariannol posibl cyllidebau rhan-amser gan Lywodraeth Cymru effeithio ar y sefyllfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ond yn dactegol, ystyriwyd bod 'gordalu' yn y flwyddyn hon yn gam craff a bwriadwyd gwneud hynny flwyddyn nesaf, hefyd.

11. Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2024

Cadarnhaodd Chris Franks, Cadeirydd y Pwyllgor, eu bod yn mynd ar drywydd argymhellion gan yr archwilwyr mewnol ar wreiddio rheoli risg (cofnod 2), a bod camau seiberddiogelwch ychwanegol a gymerwyd (cofnod 5) wedi cadw'r Sefydliad yn ddiogel hyd yn hyn. Nododd y Cyngor y cofnodion.

12. Hunanasesu'r cyfarfod gan aelodau'r Cyngor

Cymeradwywyd fformat diwygiedig adroddiad mwy cryno'r Prif Weithredwr yn gyffredinol. Ei ddefnyddioldeb oedd ei fod yn canolbwyntio ar flaenoriaethau go iawn i'r Prif Weithredwr ei hun, yn hytrach na chwmpasu datblygiadau sefydliadol yn eu cyfanrwydd. Nodwyd hefyd fod y trafodaethau wythnosol rhwng y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cwmpasu materion o bwys yn rheolaidd.

13. Dyddiadau ar gyfer gweddill cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd cysylltiedig yn ystod 2024-25

Cyngor #2 - **Dydd Mawrth 26 Tachwedd 2024 (11:00 - 14:00)**
Cyngor #3 - **Dydd Iau 30 Ionawr 2025 (11:00 - 14:00)**
Cyngor #4 - **Dydd Llun 10 Mawrth 2025 (yn ofynnol ar gyfer llunio materion y cyfarfod cyffredinol blynyddol/cynigion yn derfynol: 11:00 - 13:00)**
Cynhadledd Flynyddol a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol - **Dydd Iau 3 Ebrill 2025: cynnig – Venue Cymru, Llandudno**
Digwyddiad preswyl Cynllunio Strategol - **Dydd Llun 12 a dydd Mawrth 13 Mai 2025: cynnig - canolbarth Cymru**
Cyngor #5 - **Dydd Mercher 2 Gorffennaf 2025 (11:00 - 14:00)**

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Enw'r cofnod	Cam gweithredu y cytunwyd arno	Pwy ddylai weithredu	Erbyn pryd y dylid gweithredu
Cofnod 3	Cyflwyniad ar brosiect llythrennedd LifeLoveLoss	Byddai diddordeb gan Victory Ezeofor, sy'n ymwneud â phrosiect tebyg ym Mhrifysgol Bangor, gael adborth ar y defnydd o adnoddau'r prosiect a'u defnyddioldeb.	RhW	Rhag. 2024
Cofnod 5	Ethol Cadeirydd nesaf Addysg Oedolion Cymru	Byddai hefyd angen cytuno ar Gadeirydd newydd y Pwyllgor Adnoddau ac (o bosibl) Is-gadeirydd sefydliadol pellach dros y misoedd nesaf.	ST / Aelodau'r Cyngor	Mawrth 2025
Cofnod 6	Adroddiad y Prif Weithredwr, Medi 2024	Cymeradwyodd y Cyngor y dyfarniad cyflog o 5.5%, wedi'i ôl-ddyddio i 1 Awst 2024, a gymeradwywyd yn ddiweddar i athrawon ac, felly, trwy gydraddoldeb cyflog i bawb a oedd yn gweithio yn y sector AB.	MB / Adele Gatt	Rhag. 2024
Cofnod 7	Cofrestr Risg ar gyfer Medi 2024	Gofynnwyd am ychydig addasiadau a diweddariadau i'r geiriad (risgiau 3.1.1, 4.1.1 a 6.1.3), ochr yn ochr ag ailystyried y sgôr risg ar gyfer risg 2.1.1. O ran darpariaeth Gymraeg, (2.1.2) byddai angen ystyried ymhellach gynnig ar ei defnydd estynedig mewn dosbarthiadau.	MB / KR / ST	Tach. 2024
Cofnod 9	Egwyddorion a Phrotocolau ar gyfer Llywodraethu ac Ymddygiad Proffesiynol Da	Bydd y Clerc yn gwneud rhai diwygiadau i'r ddogfen derfynol ac yna'n ei chynnwys mewn pecynnau sefydlu i bob ymddiriedolwr newydd.	ST	Tach. 2024